**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: MA/JJ/2793/23

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

6 Tachwedd 2023

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Medi yn amgáu copi o: *Adroddiad ar weithredu y mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2022-23 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith.*

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith ar y mater pwysig hwn. Rwyf wedi ystyried adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor yn drylwyr ac yn amgáu ymateb manwl.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A**

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Newid Hinsawdd Pwyllgor yr Amgylchedd a Seilwaith o'r enw 'Adroddiad ar weithredu y mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2022-23'.**

**<u>Argymhelliad 1</u>**

Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar:

- ganfyddiadau'r adolygiad o adnoddau, gan gynnwys pryd y bydd adnoddau ychwanegol ar gael; a
- camau sydd wedi'u cymryd hyd yma i benodi Dirprwy IEPAW. Dylai hyn gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer gweddill y broses benodi.

**Ymateb: Derbyn**

*Ysgrifennais at y Pwyllgor ar 8 Mehefin 2023 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd i asesu gofynion adnoddau yr IEPAW.*

*Fel y nodwyd yn fy llythyr, cytunodd Llywodraeth Cymru i gymryd y camau canlynol i sicrhau bod gan yr IEPAW yr adnoddau sydd eu hangen arni i gyflawni'r gwaith hwn:*

- *Penodi Dirprwy IEPAW,*
- *Recriwtio staff penodol i ddarparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r IEPAW, a*
- *Bydd rhagor o arian ar gael i'r IEPAW i sicrhau cefnogaeth ac arbenigedd drafftio ychwanegol, gan gynnwys trwy gytundeb galw i ffwrdd.*

*Cynnydd hyd yn hyn:*

- *Mae'r staff dynodedig wedi'u penodi ac maent yn darparu cefnogaeth ysgrifenyddol benodol i'r IEPAW*
- Dyrannwyd cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith yr IEPAW fel y gellir comisiynu *capasiti drafftio ychwanegol a chefnogaeth arbenigol a chyfreithiol, gan gynnwys trwy gontract galw i ffwrdd.*
- *Aeth yr hysbyseb ar gyfer swydd Dirprwy IEPAW yn fyw ar 23 Hydref 2023. Fy mwriad yw llenwi'r swydd hon cyn gynted â phosibl ond mae'r amserlen yn dibynnu ar y ceisiadau a dderbyniwyd.*

**Goblygiadau ariannol -** Daw'r costau hyn o gyllidebau rhaglenni presennol. Mae'r gyllideb bresennol ar gyfer IEPAW wedi cynyddu £75,000 i benodi'r Dirprwy IEPAW ac ar gyfer capasiti drafftio ychwanegol a chefnogaeth arbenigol a chyfreithiol.

**<u>Argymhelliad 2</u>**

Dylai IEPAW sefydlu proses ffurfiol i fonitro effaith ei argymhellion ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru a chanlyniadau amgylcheddol. Bydd hyn yn caniatáu i'r IEPAW asesu ei effaith.

**Ymateb:** Mater i'r IEPAW yw hwn ond byddaf yn trafod yr argymhelliad hwn gyda'r IEPAW yn ein cyfarfod rheolaidd nesaf.

**Argymhelliad 3**

Dylai'r Gweinidog wneud y canlynol:

- rhoi manylion am yr opsiynau arfaethedig ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd mesurau dros dro;
- egluro pryd y bydd gwerthusiad o'r mesurau interim yn cael ei gynnal; ac
- esbonio sut y bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu defnyddio i lywio dyluniad a datblygiad corff llywodraethu amgylcheddol parhaol i Gymru.

*Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru ac i gyflwyno targedau i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth. Mae'r dysgu o effaith ac effeithiolrwydd yr IEPAW a'r mesurau interim yn llywio ein cynigion deddfwriaethol ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol a bydd hefyd yn llywio'r prosiect gweithredu i sefydlu'r corff.*

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau ariannol -** Nid yw'r rhain wedi'u mesur eto.

**Argymhelliad 4**

Dylai'r Gweinidog egluro a yw yn bwriadu ailbenodi'r IEPAW pan ddaw ei phenodiad presennol i ben ym mis Chwefror 2024. Os nad bwriad y Gweinidog yw hyn, dylai egluro sut y bydd yn sicrhau "na fydd bwlch rhwng rôl [yr IEPAW]ac unrhyw drefniadau parhaol [llywodraethu amgylcheddol]".

**Ymateb: Derbyn**

*Mae trafodaethau'n parhau rhwng yr IEPAW a'm swyddogion ynglŷn â'r sefyllfa y tu hwnt i fis Chwefror 2024. Byddaf yn ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor am y canlyniad.*

**Goblygiadau ariannol -** Bydd ffioedd IEPAW ar gyfer 2024/25 yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 5**

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- cyhoeddi ei hymateb i'r Papur Gwyn sydd ar ddod ar Fil i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol a chyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol o fewn chwe mis i ddiwedd yr ymgynghoriad;
- i gyflwyno'r Bil ym mlwyddyn pedwar y Rhaglen Ddeddfwriaethol; a
- sicrhau bod y corff llywodraethu amgylcheddol newydd yn gwbl weithredol cyn diwedd y Chweched Senedd.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

*Ar 27 Mehefin 2023, cafodd Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ei chyhoeddi gan Brif Weinidog Cymru. Fel rhan o hyn, ailddatganodd fwriad y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru a chyflwyno dyletswydd a thargedau statudol i warchod ac adfer bioamrywiaeth. Cadarnhaodd y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno Papur Gwyn ar Dargedau Llywodraethu Amgylcheddol a Bioamrywiaeth erbyn mis Ionawr 2024.*

*Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hymateb i ymgynghoriad y Papur Gwyn cyn gynted ag y bo modd, ond bydd y ffrâm amser yn cael ei ddylanwadu gan gyfaint a chymhlethdod y sylwadau. Bydd amseriad sefydlu'r Corff yn dibynnu ar union amseriad taith y Bil drwy'r Senedd. Bwriad Llywodraeth Cymru yw sefydlu'r Corff yn gyflym ond mae angen cynllunio gweithredu manwl pellach.*

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

## Argymhelliad 6

Dylai'r Gweinidog ymrwymo i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol interim / cysgodol cyn gynted â phosibl.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

*Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru. Unwaith y bydd ymateb y Papur Gwyn wedi'i gwblhau, byddaf yn bwrw ymlaen â'r trefniadau ar gyfer datblygu'r trefniadau gweithredol ar gyfer y corff newydd.*

*Mae'r IEPAW yn darparu trefniadau llywodraethu amgylcheddol dros dro.*

**Goblygiadau Ariannol – Heb ei fesur eto** Bydd costau yn ogystal â'r IEPAW yn cael eu sefydlu drwy ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil arfaethedig a bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

## Argymhelliad 7

Dylai'r Gweinidog drafod â'r OEP ac ESS i ddeall y gwersi a ddysgwyd o sefydlu eu cyrff priodol. Dylai'r Papur Gwyn sydd ar ddod ar gyfer y Bil adlewyrchu'r canlyniad

**Ymateb: Derbyn**

*Yn ogystal â monitro yn fanwl ddatblygiadau yn yr OEP ac ESS, mae fy swyddogion yn parhau i gysylltu â rhai'r OEP a'r ESS, yn ogystal â chyda cymheiriaid yn DEFRA a Llywodraeth yr Alban. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i ddatblygu'r corff yng Nghymru.*

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.